OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1759 (Cy. 174)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Gorffennaf 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Gorffennaf 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Gorffennaf 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 3(1) a 4A o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Gorffennaf 2014 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1) o erthygl 2 (Dehongli)—

(a) cyn y diffiniad o "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*"), mewnosoder—

"mae "archwiliad mewn labordy" ("*laboratory examination*") yn cynnwys profi mewn labordy;";

(b) yn lle'r diffiniad o "trydedd wlad" ("*third country*") rhodder—

"mae i "trydedd wlad" ("*third country*") yr un ystyr yn y Gorchymyn hwn ag yng Ngorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**3**)

(**1**) 1967 p. 8. Diwygiwyd adran 1(2) gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013/755 (Cy. 90), Atodlen 2, paragraff 43. Diwygiwyd adran 3(1) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), adran 4 ac Atodlen 4, paragraff 8 ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2011/1043, Rhan 2, erthygl 6(1)(e). Mewnosodwyd adran 4A gan Ddeddf Amaethyddiaeth 1986 (p. 49), adran 3. Rhoddwyd y pwerau a roddir gan adrannau 3 a 4A i "competent authority", a ddiffinnir yn adran 1(2), yn achos Cymru, fel Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2006/1701 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/1658 (Cy. 156).

(**3**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, erthygl 9(1); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.

(3) Yn lle Atodlen 3(**4**) rhodder—

"ATODLEN 3

Erthyglau 3 a 5

Ceisiadau am dystysgrifau: ffioedd

| Gwasanaethau o ran ceisiadau am dystysgrifau | Ffi (£) | Ffi (allforiwr bach) (£) |
|---|---|---|
| (1) Gwasanaethau am lwythi heblaw gronynnau: | | |
| (a) arolygiad a, pan fo angen, archwiliad mewn labordy | 58.92 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 117.84 | 29.46 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 58.92 |
| (b) archwiliad mewn labordy yn unig | 32.93 | 16.47 |
| (c) dyroddi tystysgrif pan nad oes angen arolygiad neu archwiliad mewn labordy | 12.53 | 6.27 |
| (2) Gwasanaethau ar gyfer llwythi o ronynnau: | | |
| monitro arolygiadau a gyflawnir gan berson awdurdodedig o dan erthygl 3(3) a, pan fo angen hynny, archwiliad mewn labordy a gyflawnir gan swyddog awdurdodedig | 53.78 | 26.89". |

(4) Yn lle Atodlen 4(**5**) rhodder—

"ATODLEN 4

Erthygl 5

Ffioedd gwasanaethau cyn-allforio

| Gwasanaeth | Ffi (£) | Ffi (allforiwr bach) (£) |
|---|---|---|
| Gwasanaeth cyn-allforio | 44.88 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 89.75 | 22.44 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 44.88". |

*Alun Davies*
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

2 Gorffennaf 2014

(**4**) Amnewidiwyd Atodlen 3 gan O.S. 2013/1658 (Cy. 156), erthygl 2(3).
(**5**) Amnewidiwyd Atodlen 4 gan O.S. 2013/1658 (Cy. 156), erthygl 2(4).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1701 (Cy. 163)) ("Gorchymyn 2006").

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cynyddu'r ffioedd a bennwyd yng Ngorchymyn 2006 fel a ganlyn:

(a) ffioedd am wasanaethau o ran ceisiadau am dystysgrifau yn ôl amrediad rhwng 4% a 52% (erthygl 2(3)), a

(b) ffioedd am wasanaethau cyn-allforio yn ôl 19% (erthygl 2(4)).

Ceir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Esboniadol sydd i'w weld ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn www.cynulliadcymru.org. Lefelau'r ffioedd y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn hwn yw'r ail ran o symudiad tuag at adennill costau llawn y ffioedd dros gyfnod o dair blynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Dîm yr Amgylchedd Naturiol ac Amaethyddiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.